**GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR SIOPAU BACH**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 11.30 ar 29 Ionawr 2014 yn Nhŷ Hywel**

**YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Janet Finch-Saunders AC (JFS) | Cadeirydd |
| Keith Davies AC (KD) | Aelod |
| Mark Isherwood AC (MI) | |
| Tom Evans (TE) | Ardal Gwella Busnes Casnewydd |
| Alan Edwards (AE) | Siambr Fasnach Casnewydd |
| Adrian Roper (AR) | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| Mair Roberts (MRR) | Ysgrifennydd |
| Shane Brennan (SB) | Y Gymdeithas Siopau Cyfleus |
| Neil Moss (NM) | Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Manwerthu |
| William Lloyd Williams (WLW) | Ffederasiwn Cenedlaethol Masnachwyr Cig a Bwyd |
| Nathan Walmsley | Filco Supermarkets |
| Mark Roberts (MR) | The Co-operative Group |
| Michael Weedon | Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain |
| Craig Lawson (CL) | Suzy Davies AC |
| Sophie Traherne (ST) | Swyddfa'r Grŵp Ceidwadol |
| Owen Davies (OD) | Owen Davies Consulting |
| Chris Jones (CJ) | Chris Jones Regeneration |
| Chris Wade (CW) | Action for Market Towns |
| Mike Cisuelo (MC) | Booker Wholesale |

**2.CYFLWYNIAD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i ail gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol (CPG) a chyflwynodd CW, OD a CJ, a fyddai'n sôn am eu profiadau o brosiectau adfywio ledled Cymru.

**2.CYFLWYNIADAU GAN ACTION FOR MARKET TOWNS**

Cafwyd cyflwyniadau gan CW o Action for Market Towns a'r ymgynghorwyr adfywio OD a CJ ar brosiectau adfywio ledled Cymru.

Agorwyd y cyflwyniad gan CW, a roddodd drosolwg cyffredinol o bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth mewn prosiectau adfywio stryd fawr yng Nghymru a rhoi pwyslais ar dwf. Tynnodd sylw hefyd at yr angen i ddeall anghenion penodol tref neu ddinas wrth wneud gwaith adfywio. Pwysleisiwyd bod parcio yn broblem sy'n wynebu llawer o fusnesau annibynnol yn nhrefi Cymru.

Yna rhoddodd OD a CJ enghreifftiau penodol o bartneriaethau canol tref llwyddiannus yng Nghymru. Yr astudiaethau achos a ddefnyddiwyd oedd: Dolgellau, Bangor, Castell-nedd ac

Ystradgynlais. Amlygwyd, mewn rhai achosion, bod nifer o grwpiau busnes ac adfywio yn bodoli mewn tref ond yn methu â gweithio gyda'i gilydd. Argymhellwyd y dylai'r grwpiau hyn gydweithio er mwyn cyflawni canlyniadau cyson.

*Trafodaeth*

Yn dilyn y cyflwyniad, trafodwyd nifer o faterion:

*Ardaloedd Gwella Busnes*

Cafwyd trafodaeth fer ar ddiben Ardaloedd Gwella Busnes (AGB) a'r hyn y maent yn gallu ei gyflawni. Rhannodd TE o AGB Casnewydd y sylw bod llawer o grwpiau yn ceisio cyflawni'r un canlyniadau ar gyfer adfywio'r ddinas cyn creu AGB Casnewydd. Ei gasgliad ef oedd bod yr AGB yn ffordd adeiladol o ddod â gwahanol randdeiliaid at ei gilydd i gyflawni'r un nod.

*Amser ac adnoddau*

Nodwyd gan WLW bod nifer o fanwerthwyr yn ei chael yn anodd gallu cymryd amser i ffwrdd o redeg eu busnes i fynychu cyfarfodydd, fel cyfarfodydd AGB. Roedd hefyd yn ofni fod yna apathi ymhlith rhai manwerthwyr annibynnol o ran y materion hyn.

*Arweiniad*

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd rôl arweinydd effeithiol mewn partneriaethau canol tref gan sawl aelod o'r grŵp.

Yn y pen draw, cytunwyd bod llwyddiant partneriaeth yn dibynnu ar uno grwpiau sydd eisoes yn bodoli mewn ardal benodol; byddai hyn yn creu cydlyniant o ran y nodau sydd eu hangen i adfywio canol y dref dan sylw.

*Cyfarfodydd y dyfodol*

**Cytunwyd mai pwnc y cyfarfod nesaf yn y gwanwyn fydd cynllunio, o gofio bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Bil Cynllunio ar hyn o bryd.**

Cytunwyd hefyd y bydd derbyniad yn cael ei gynnal yn y Senedd ym mis Gorffennaf i ddathlu cyfraniad siopau bach i economi Cymru. Estynnir gwahoddiad i'r digwyddiad i Aelodau'r Cynulliad, cynrychiolwyr o gyrff masnach manwerthu bach a'u haelodau sy'n gweithredu yng Nghymru.

Daeth JFS â'r cyfarfod i ben.